# CAERDYDD

## yn 2025

**Sylwer:** Datblygwyd yr adroddiad yn seiliedig ar y data diweddaraf sydd ar gael ac felly mae'n rhoi cipolwg o gyfnod penodol (Mehefin 2025).


# Demograffeg Caerdydd
# Trosolwg



# Amcangyfrifon Poblogaeth yn ôl Grŵp Oedran

**Pwyntiau Allweddol:**

- Yr amcangyfrif poblogaeth diweddaraf (canol 2023) ar gyfer Caerdydd yw 383.5k o bobl, cynnydd o 87k ers 1991.
- Rhwng 2011 a 2021 tyfodd y boblogaeth 14k yn unig o'i gymharu â 35k ar gyfer y cyfnod 10 mlynedd blaenorol. Fodd bynnag, dilynwyd hyn gan gynnydd sylweddol o bron 24k o bobl rhwng 2021 a 2023, gan gynnwys dros 12k rhwng 2022 a 2023 - y cynnydd blwyddyn mwyaf ers dechrau cadw cofnodion ym 1991, a mwy na dwbl y cynnydd blynyddol mwyaf a welwyd rhwng 1991 a 2021.
- Ers 2011, mae poblogaeth Caerdydd sy'n 65 oed ac yn hŷn wedi cynyddu gan un rhan o bump (19.9%) - bron deirgwaith y cynnydd a welwyd gan y rheini sy'n 0-15 oed (6.6%) a bron ddwywaith y cynnydd o'r rheini sy'n 16-64 oed (10.5%).
- Yn 2023, roedd 17.5% o boblogaeth Caerdydd rhwng 0-15 oed (67k), 68.2% yn 16-64 oed (261k), ac roedd 14.3% yn 65 oed ac yn hŷn (55k).





*Ffynhonnell: Amcangyfrifon Poblogaeth Canol Blwyddyn, Swyddfa Ystadegau Gwladol*


# Ethnigrwydd

**Pwyntiau Allweddol:**

- Dangosodd Cyfrifiad 2021 fod 26.4% o boblogaeth Caerdydd (96k o bobl) yn perthyn i grwpiau ethnig amrywiol, bron deirgwaith y gyfran yng Nghymru gyfan o 9.4%.
- Ers Cyfrifiad 2011, mae nifer y preswylwyr sy'n perthyn i grŵp ethnig gwyn wedi gostwng dros 6k. Mewn cyferbyniad, mae pob un o'r grwpiau ethnig nad ydynt yn wyn wedi gweld cynnydd yn y niferoedd:
- Asiaidd, Asiaidd Prydeinig neu Asiaidd Cymreig: +7.1k
- Du, Du Prydeinig, Du Cymreig, Caribïaidd neu Affricanaidd: +5.7k
- Grwpiau Cymysg neu Aml-ethnig: +4.5k
- Grŵp ethnig arall: +5.1k




*Ffynhonnell: Cyfrifiad 2021*




*Ffynhonnell: Cyfrifiad*

*D.S. Mae Grwpiau Ethnig Amrywiol yn cynnwys pob ethnigrwydd ac eithrio Gwyn: Cymreig, Seisnig, Albanaidd, Gogledd Iwerddon neu Brydeinig*


# Lles Personol





# Lles Personol: Boddhad bywyd, Hapusrwydd, Teimlo’n Werth Chweil, Gorbryder


**Pwyntiau Allweddol:**

- Yn 2022/23, rhestrodd Caerdydd yn gymharol wael o'i chymharu â dinasoedd mawr eraill (a Chaeredin) yn ogystal â Chymru a'r DU.
- Y drydedd ddinas fawr isaf ar gyfer Boddhad Bywyd ac yn is na sgôr cyfartalog Cymru a'r DU.
- Yn gydradd ail isaf ar gyfer Teimlo’n Werth Chweil ac yn is na sgôr cyfartalog Cymru a'r DU.
- Yr ail ddinas fawr isaf ar gyfer Boddhad Bywyd ac yn is na sgôr cyfartalog Cymru a'r DU.
- Yn gydradd ail uchaf ar gyfer lefel 'Gorbryder' ac yn uwch na sgôr cyfartalog Cymru a'r DU.





*Ffynhonnell: SYG*


*DS. Nid yw’r echelin fertigol yn dechrau ar sero*


# Lles Personol:  Boddhad bywyd, Hapusrwydd, Teimlo’n Werth Chweil, Gorbryder (parhad)


**Pwyntiau Allweddol:**

- Mae sgôr gyfartalog Caerdydd ar gyfer Boddhad Bywyd, Teimlo'n Werth chweil a Hapusrwydd yn uwch na’r marc 7/10 ers 2011/12.
- Fodd bynnag, ers 2019/20 mae'r holl ddangosyddion hyn o les personol wedi dilyn tuedd tuag i lawr, o bosib o ganlyniad i ddigwyddiadau fel y pandemig a'r argyfwng costau byw, ac wedi ymwahanu oddi wrth ffigurau Cymru a'r DU.
- Yn yr un modd, mae lefelau gorbryder yng Nghaerdydd wedi gweld tuedd tuag i fyny ers 2019/20 ac, yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ac eithrio 2020/21, maent wedi bod yn uwch na chyfartaledd Cymru a'r DU.
- Yn 2022/23, roedd pob un o'r pedwar dangosydd ar eu lefelau gwaethaf ers y dechreuwyd eu cofnodi yn 2011/12.









*Ffynhonnell:  SYG*


*DS.  Nid yw’r echelin fertigol yn dechrau ar sero*


# Lles Personol: Boddhad bywyd, Hapusrwydd, Teimlo’n Werth Chweil, Gorbryder (parhad)

**Pwyntiau Allweddol:**
- Ar draws yr ystod o fesurau, mae lles personol yn dirywio wrth i amddifadedd gynyddu.









*Ffynhonnell: Arolwg Holi Caerdydd, Cyngor Caerdydd*

# Canran y bobl sy’n eithaf bodlon neu’n fodlon iawn ar eu swyddi

**Pwyntiau Allweddol:**

- Yn 2019-20 (y data diweddaraf sydd ar gael), roedd mwy na phedair rhan o bump (82%) o bobl yng Nghaerdydd yn eithaf bodlon neu'n fodlon iawn ar eu swyddi, yr un gyfran â Chymru gyfan.
- Mae'r ffigur hwn wedi bod yn gymharol sefydlog ers 2016-17.




*Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru, Llywodraeth Cymru*

# Mae Caerdydd yn lle gwych i gael eich magu





# Canran y Plant mewn Teuluoedd ag Incwm Isel Cymharol

**Pwyntiau Allweddol:**

- Yn 2023/24, roedd bron chwarter (23.4%) o blant (dan 16 oed) yn byw mewn teuluoedd incwm isel cymharol yng Nghaerdydd. Dyma'r drydedd ganran isaf ar draws dinasoedd mawr y DU ac ychydig yn is na'r ffigur ar gyfer Cymru o 24.0%. Fodd bynnag, mae'n fwy na chyfartaledd y DU o 21.8%.
- Ar draws wardiau Caerdydd, mae'r gyfran yn amrywio ddeg gwaith o 5.2% yn Llandaf a Radur i 52.6% yn Butetown. Mae'r ffigur hefyd yn fwy na dwy ran o bump yn Adamsdown a Grangetown.

[D.S. Er bod y data ar gyfer Diwedd Blwyddyn Ariannol 2021, Diwedd Blwyddyn Ariannol 2022 a Diwedd Blwyddyn Ariannol 2023 wedi bod yn destun proses sicrwydd ansawdd helaeth cyn ei gyhoeddi, argymhellir bod defnyddwyr yn arfer gofal ychwanegol wrth ddefnyddio'r data, yn enwedig wrth wneud cymariaethau â blynyddoedd blaenorol ac ar gyfer ardaloedd lleol ar draws gwledydd. O ganlyniad, mae'r ystadegau sydd wedi'u cynnwys yma yn canolbwyntio'n unig ar ddata diweddaraf Diwedd Blwyddyn Ariannol 2024.]





*Ffynhonnell: Adran Gwaith a Phensiynau*


# Canran y Plant mewn Teuluoedd ag Incwm Isel Absoliwt

**Pwyntiau Allweddol:**

- Yn 2023/24, roedd un rhan o bump (20.1%) o blant (dan 16 oed) yn byw mewn teuluoedd incwm isel absoliwt yng Nghaerdydd. Dyma'r drydedd ganran isaf ar draws dinasoedd mawr y DU ac ychydig yn is na'r ffigur ar gyfer Cymru o 20.4%. Fodd bynnag, mae'n fwy na chyfartaledd y DU o 18.7%.
- Ar draws wardiau Caerdydd, mae'r gyfran yn amrywio mwy na thair gwaith ar ddeg o 3.5% yn Radur i 47.9% yn Butetown. Mae'r ffigur hefyd yn fwy na thraean yn Adamsdown a Grangetown.

[D.S. Er bod y data ar gyfer Diwedd Blwyddyn Ariannol 2021, Diwedd Blwyddyn Ariannol 2022 a Diwedd Blwyddyn Ariannol 2023 wedi bod yn destun proses sicrwydd ansawdd helaeth cyn ei gyhoeddi, argymhellir bod defnyddwyr yn arfer gofal ychwanegol wrth ddefnyddio'r data, yn enwedig wrth wneud cymariaethau â blynyddoedd blaenorol ac ar gyfer ardaloedd lleol ar draws gwledydd. O ganlyniad, mae'r ystadegau sydd wedi'u cynnwys yma yn canolbwyntio'n unig ar ddata diweddaraf Diwedd Blwyddyn Ariannol 2024.]








*Ffynhonnell: Adran Gwaith a Phensiynau*


# Lles Meddyliol: Plant a Phobl Ifanc ac Oedolion

**Pwyntiau Allweddol:**

- Yn 2023, Caerdydd oedd â'r sgôr lles meddyliol cymedrig gydradd ail uchaf ar gyfer plant 11-16 oed ac roedd yn uwch na chyfartaledd Cymru.
- Yn 2022/23, lles meddyliol oedolion (cyfartaledd wedi'i safoni yn ôl oedran) yng Nghaerdydd oedd y sgôr gydradd drydydd uchaf ar draws ALlau Cymru ac roedd yn uwch na chyfartaledd Cymru.




*Ffynhonnell: Cynhyrchwyd gan Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan ddefnyddio data RhYYI*






*Ffynhonnell: Cynhyrchwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru gan ddefnyddio Arolwg Cenedlaethol Cymru (LlC)*


# Canran y plant rhwng 4 a 5 sydd â phwysau iach

**Pwyntiau Allweddol:**

- Yn 2023/24, roedd bron pedair rhan o bump (79.5%) o blant 4-5 oed yng Nghaerdydd o bwysau iach neu o dan bwysau - ei chyfran uchaf ers dechrau cadw cofnodion yn 2012/13 a'r ail uchaf yng Nghymru. Mae ffigur Caerdydd hefyd wedi mynd y tu hwnt i ffigur Cymru gyfan yn gyson ers 2012/13.
- Fodd bynnag, roedd hyn yn dal i adael dros un rhan o bump (20.5%) o blant 4 neu 5 oed yng Nghaerdydd sydd dros bwysau neu'n ordew.
- Mae hefyd gwahaniaeth o 8.4 pwynt canran wrth gymharu cymunedau Caerdydd â'r amddifadedd mwyaf/lleiaf. Fodd bynnag, mae'r bwlch hwn yn ostyngiad o 12.4 pwynt canran o'r flwyddyn flaenorol (2022/23) a dyma'r isaf ers i'r ffigurau hyn gael eu cynhyrchu gyntaf yn 2016/17.





DS. Ni chafwyd datganiad ystadegau swyddogol ar gyfer 2019/20 oherwydd pandemig COVID-19 a'r effaith ar gasglu data. Oherwydd effaith y pandemig ar lefelau cyfranogi, er enghraifft, nid yw ffigurau Caerdydd ar gael ar gyfer 2020/21, ac nid yw ffigurau cenedlaethol ar gyfer Cymru ar gael ar gyfer 2020/21 na 2021/22.

*Ffynhonnell: Rhaglen Mesur Plant Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru*

# Canran y myfyrwyr (11-16 oed) sy'n gorfforol weithgar am fwy na 60 munud, ar lai na 3 diwrnod yr wythnos yn ôl Sgôr Cyfoeth Teuluol

**Pwyntiau Allweddol:**

- Yn 2021/22, roedd bron hanner (48%) y myfyrwyr (11-16 oed) o deuluoedd llai cefnog yng Nghaerdydd yn gorfforol weithgar am fwy na 60 munud ar lai na 3 diwrnod yr wythnos. Roedd hyn ymhell uwchlaw'r ffigur cyfatebol ar gyfer teuluoedd mwy cefnog (30%).





*Ffynhonnell: Adroddiad Iechyd a Lles Myfyrwyr, Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion, (Iechyd Cyhoeddus Cymru)*


Mae Graddfa Cyfoeth Teuluol (GCT) YIPY wedi'i defnyddio i amcangyfrif statws economaidd-gymdeithasol pobl ifanc, yn seiliedig ar gyfres o gwestiynau sy'n mesur amodau materol yr aelwyd y mae pobl ifanc yn byw arnynt. Mae canlyniad sgôr cyfoeth deuaidd (sgorio isel rhwng 0 a 7, a sgôr uchel rhwng 8 a 10) wedi'i ddefnyddio yn lle'r system sgorio safonol uchel, ganolig ac isel arferol, oherwydd nad yw un o'r chwe chwestiwn sy'n ffurfio'r canlyniad graddfa bellach yn fesur priodol o ganlyniad i gyfyngiadau pandemig (Ydy eich teulu wedi teithio y tu allan i Gymru ar wyliau?). Ni chafodd y rheini na roddodd ymateb i'r holl gwestiynau sy'n ffurfio'r sgôr ganlyniad uchel nac isel; sy'n golygu eu bod wedi'u heithrio o ddadansoddiadau GCT.

# Canran y plant sy'n beicio/cerdded i'r ysgol

**Pwyntiau Allweddol:**

- Ers 2014, mae canran y plant sy'n beicio neu'n cerdded i'r ysgol wedi cynyddu'n gyson, yn bennaf oherwydd cynnydd mewn cerdded.
- Yn 2024, mae bron tair rhan o bump (59.1%) o blant yng Nghaerdydd yn teithio'n llesol i'r ysgol.
- Ar draws y ddinas, mae'r ffigur hwn yn amrywio o 53.9% yn Nwyrain Caerdydd i 65.0% yng Nghanol a De Caerdydd.





D.S. Cyn 2024, Cyngor Caerdydd oedd yn gyfrifol am gasglu'r data hwn. Ers hynny, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru (ICC) wedi cymryd cyfrifoldeb am gasglu data. Mae methodoleg arolwg ICC ychydig yn wahanol i'r fethodoleg a ddefnyddir gan Gyngor Caerdydd, yn ogystal â maint eu sampl.


*Ffynhonnell: Cyngor Caerdydd (Cynllunio Strategol)/Iechyd Cyhoeddus Cymru*


# Nifer y plant a gafodd MMR2 erbyn eu bod yn 4 oed

**Pwyntiau Allweddol:**

- Cynyddodd y gyfradd o bobl oedd yn manteisio ar frechlynnau MMR2 erbyn 4 oed yng Nghaerdydd yn 2024/25, gan wrthdroi'r duedd a welwyd ers y pandemig. Fodd bynnag, mae'n dal i fod yn is na'r lefel cyn y pandemig.
- Yn 2024/25, Caerdydd (83.2%) oedd â'r ail gyfradd isaf ar gyfer pobl oedd yn manteisio ar frechiadau MMR2 yng Nghymru, er bod hyn yn welliant o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol pan oedd â'r gyfradd isaf. Mae hefyd wedi bod yn gyson is na chyfradd Cymru, a oedd yn 86.7% yn 2024/25.
- Y gyfradd imiwneiddio darged yw 95%, er nad oes yr un awdurdod lleol yng Nghymru yn cyrraedd y targed hwn ar hyn o bryd.
- Yng Nghaerdydd, mae gan glwstwr Meddygon Teulu Canol a De Caerdydd lefelau arbennig o isel o ran nifer y bobl sy'n manteisio ar frechlynnau, gyda dim ond dwy ran o dair (68.6%) wedi derbyn eu hail frechiad erbyn iddynt gyrraedd 4 oed ar gyfer y deuddeg mis sy'n dod i ben ym mis Mawrth 2024.
- Mae'r clystyrau sy'n perfformio orau yng Nghaerdydd yn dal i fod yn is na'r targed cenedlaethol.









*Ffynhonnell: Iechyd Cyhoeddus Cymru*

# Canran y plant sydd wedi cael eu brechiadau gofynnol erbyn 4 oed

**Pwyntiau Allweddol:**

- Yn 2024/25, roedd ychydig dros bedair rhan o bump (81.1%) o blant yng Nghaerdydd wedi cael eu brechiadau gofynnol erbyn iddynt gyrraedd 4 oed, yr ail ffigur isaf yng Nghymru ac yn is na chyfartaledd Cymru o 85.3%.
- Fodd bynnag, roedd yn gynnydd o 78.3% yn y flwyddyn flaenorol, pan oedd ganddi'r gyfradd isaf yng Nghymru. Roedd hyn yn groes i'r dirywiad diweddar yn y nifer oedd yn manteisio ar frechiadau a welwyd ers y pandemig, er ei fod yn dal i fod yn is na'r lefel cyn y pandemig.









*Ffynhonnell: Iechyd Cyhoeddus Cymru*

# Canran y myfyrwyr (11-16 oed) sy'n smygu o leiaf unwaith yr wythnos ar hyn o bryd

**Pwyntiau Allweddol:**

- Yn 2023, roedd 2.1% o fyfyrwyr (11-16 oed) yng Nghaerdydd yn smygu o leiaf unwaith yr wythnos - y ffigur cydradd drydydd isaf ar draws ALlau Cymru ac yn is na chyfartaledd Cymru o 2.6%. Fodd bynnag, roedd cyfradd Caerdydd wedi cynyddu o 1.8% yn yr astudiaeth flaenorol (2021), tra, mewn cyferbyniad, roedd ffigur Cymru wedi gostwng o 3.0%.
- Ers 2017/18, mae ffigur Caerdydd wedi cymharu'n ffafriol â ffigur Cymru gyfan, er bod y bwlch wedi lleihau ers 2019.





*Ffynhonnell: Adroddiad Iechyd a Lles Myfyrwyr, Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion, Iechyd Cyhoeddus Cymru*


# Disgyblion sy'n ymadael â'r ysgol ym Mlwyddyn 11 y gwyddys nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth neu Hyfforddiant (NEET)

**Pwyntiau Allweddol:**

- Yn 2024, roedd yn hysbys bod 2.9% o ddisgyblion Blwyddyn 11 oedd yn ymadael â'r ysgol yng Nghaerdydd yn NEET, y ffigur cydradd bumed uchaf ar draws ALlau Cymru ac yn uwch na chyfartaledd Cymru, sef 2.4%.
- Yn dilyn cyfnod o sefydlogrwydd cymharol, mae cyfradd Caerdydd wedi dechrau cynyddu yn ystod y blynyddoedd diwethaf, o isafswm o 1.4% yn 2021. Fodd bynnag, mae'n dal i fod ymhell is na'r uchafswm o 8.9% a welwyd yn 2009.

[D.S. Wrth gymharu data 2024 â blynyddoedd blaenorol, mae'n bwysig ystyried ffactorau dylanwadol eraill, yn benodol, y gyfradd 'Dim ymateb' uchel yn 2018 ac absenoldeb unrhyw arholiadau allanol yn 2020 neu 2021 oherwydd pandemig COVID-19.]





*Ffynhonnell: Gyrfa Cymru*

# Disgyblion sy’n ymadael â’r ysgol ym Mlwyddyn 13 y gwyddys nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth neu Hyfforddiant (NEET)


**Pwyntiau Allweddol:**

- Yn 2024, roedd yn hysbys bod 3.1% o ddisgyblion Mlwyddyn 13 oedd yn ymadael â’r ysgol yng Nghaerdydd yn NEET, ychydig yn is na chyfartaledd Cymru (3.2%) ac yn ostyngiad o 3.6% yn y flwyddyn flaenorol.
- Yn dilyn cyfnod o ostyngiad, mae cyfradd Caerdydd wedi bod yn gymharol sefydlog yn y blynyddoedd diwethaf. Fodd bynnag, yn 2023 a 2024 roedd y gyfradd yn uwch na 3% am y tro cyntaf ers 2016.
- Ym mis Mai 2025, roedd y Gyfradd Cyfrif Hawlwyr ar gyfer y rheini sy’n 18-24 oed yn ardaloedd â'r amddifadedd lleiaf y ddinas (9.6%) yn fwy na phedair gwaith yn fwy na'r ardaloedd â'r amddifadedd lleiaf (2.2%).

[D.S. Wrth gymharu data 2024 Gyrfa Cymru â blynyddoedd blaenorol, mae'n bwysig ystyried ffactorau dylanwadol eraill, yn benodol, y gyfradd 'Dim ymateb' uchel yn 2018 ac absenoldeb unrhyw arholiadau allanol yn 2020 neu 2021 oherwydd pandemig COVID-19.]





*Ffynhonnell: Gyrfa Cymru*




*Ffynhonnell: Gyrfa Cymru*

*DS. Dim ond colegau trydyddol sydd gan Ferthyr Tudful a Blaenau Gwent ac mae cyfrannau'n seiliedig ar niferoedd carfan isel*





*Ffynhonnell: Cyfrifwyd gan Gyngor Caerdydd gan ddefnyddio Cyfrif Hawlwyr y Swyddfa Ystadegau Gwladol/Amcangyfrifon Poblogaeth Canol Blwyddyn/MALIC 2019 (Llywodraeth Cymru)*


# Y nifer sy'n dod i gysylltiad â'r System Cyfiawnder Ieuenctid am y tro cyntaf


**Pwyntiau Allweddol:**

- Yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Rhagfyr 2024, canfuwyd bod 34 o droseddwyr ifanc o Gaerdydd wedi dod i gysylltiad â'r System Cyfiawnder Troseddol am y tro cyntaf. Mae'r ffigur hwn wedi bod yn gymharol ddigyfnewid ers 2020, ond mae wedi gostwng o 132 yn 2014.
- Caerdydd oedd â'r gyfradd isaf (am bob 100,000 o breswylwyr 10-17 oed) ymysg y dinasoedd mawr yng Nghymru a Lloegr. Roedd hefyd yn is na'r cyfraddau ar gyfer Cymru a Lloegr, fel y bu ers 2020.

[D.S. Mae'r rhain yn ffigurau amcangyfrifedig. Mae pobl ifanc sy'n derbyn eu heuogfarn, eu rhybudd neu rybuddiad ieuenctid cyntaf wedi cael eu mapio i Awdurdodau Lleol unigol, gan ddefnyddio'r cyfeiriad cartref neu'r cod post a gofnodwyd gan yr heddlu ar Gyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu. I'r rheini nad oes cyfeiriad wedi'i gofnodi ar eu cyfer, defnyddiwyd model sy'n seiliedig ar batrymau troseddwyr y mae gorsafoedd heddlu yn ymdrin â nhw i ddyrannu troseddwyr i Awdurdodau Lleol. Felly, rhaid bod yn ofalus wrth ddefnyddio'r ffigurau hyn.]




*Ffynhonnell: Y Weinyddiaeth Gyfiawnder*

# Mae Caerdydd yn Lle Gwych i Dyfu'n Hŷn





# Canran y bobl 65 oed ac yn hŷn sy’n nodi bod eu hiechyd cyffredinol yn dda iawn neu’n dda

**Pwyntiau Allweddol:**

- Yn 2022/23, roedd dwy ran o dair (66.8%) o bobl 65 oed ac yn hŷn yng Nghaerdydd o'r farn eu bod mewn iechyd da - yr ail ffigur uchaf ar draws ALlau Cymru ac yn uwch na chyfartaledd Cymru o 59.9%.
- Ers y pandemig bu gostyngiad yn y gyfran sy’n ystyried eu hunain i fod mewn iechyd da.
- Dengys data’r Swyddfa Ystadegau Gwladol ar gyfer 2009 i 2013, ar lefel ward (ffigurau diweddaraf), fod y bwlch anghydraddoldeb disgwyliad oes iach ar gyfer y rheini sy’n 65 oed, yn 10.5 blwyddyn i ddynion a 12.1 blwyddyn i fenywod. Yn ogystal, gallai dynion 65 oed yn Adamsdown ddisgwyl treulio chwarter (24.8%) o weddill eu bywydau mewn iechyd da o’i gymharu â disgwyliad dwy ran o dair (65.4%) i’r sawl sy’n byw yn Llys-faen. Ar gyfer menywod roedd y ffigurau yn 23.5% a 56.9% yn y drefn honno.

[DS. Addaswyd Arolwg Cenedlaethol 2020/21 oherwydd pandemig y coronafeirws. Ni ddylid cymharu'r canlyniadau o 2020-21 â chanlyniadau o gyhoeddiadau blaenorol Arolwg Cenedlaethol Cymru oherwydd y newid yn y modd arolygu (ac, mewn rhai achosion, yr angen i addasu cwestiynau). Gall y materion hyn fod yn sensitif i newidiadau o'r fath.]





*Ffynhonnell: Iechyd Cyhoeddus Cymru/Arolwg Cenedlaethol Cymru*

# Canran y bobl 65 oed ac yn hŷn sy’n dweud eu bod yn unig*

**Pwyntiau Allweddol:**

- Yn 2019/20, nododd dros bedair rhan o bump (84.8%) eu bod yn hapus gyda'r gefnogaeth gan deulu, ffrindiau a chymdogion. Roedd hyn o'i gymharu â 83.5% yn 2017-18 a 86.0% yn 2018-19.

[DS. Nid yw'r Arolwg Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles Blynyddol wedi'i gynnal ers 2019/20 ac nid yw'n ofynnol bellach gan Lywodraeth Cymru]




*Ffynhonnell: Arolwg Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles, Cyngor Caerdydd*


**Cwestiwn dirprwyol ar gyfer canran y bobl 65 oed ac yn hŷn sy’n dweud eu bod yn unig*

# Boddhad â bywyd ymhlith pobl hŷn


**Pwyntiau Allweddol:**

- Yn 2022/23, roedd dros bedair rhan o bump (83.9%) o bobl hŷn (65 oed ac yn hŷn) yng Nghaerdydd yn fodlon â'u bywyd (h.y. wedi graddio eu boddhad fel 7 neu fwy allan o 10). Roedd hyn ychydig yn is na chyfartaledd Cymru ond ychydig yn uwch o 82.3% yn 2020/21 a 2021/22 (Iechyd Cyhoeddus Cymru/Arolwg Cenedlaethol Cymru).
- Dangosodd Arolwg Holi Caerdydd 2024 lefelau is o foddhad â bywyd i'r rheini sy’n 65 oed ac yn hŷn (nag ar gyfer Arolwg Cenedlaethol Cymru). Fodd bynnag, roeddent yn fwy tebygol o fod yn fodlon na'r rheini sy'n iau na 65 oed.

[DS. Addaswyd Arolwg Cenedlaethol 2020/21 oherwydd pandemig y coronafeirws.  Ni ddylid cymharu'r canlyniadau o 2020-21 â chanlyniadau o gyhoeddiadau blaenorol Arolwg Cenedlaethol Cymru oherwydd y newid yn y modd arolygu (ac, mewn rhai achosion, yr angen i addasu cwestiynau). Gall y materion hyn fod yn sensitif i newidiadau o'r fath.]




*Ffynhonnell:  Iechyd Cyhoeddus Cymru/Arolwg Cenedlaethol Cymru*





*Ffynhonnell:  Arolwg Holi Caerdydd - Cyngor Caerdydd*


# Canran y bobl 65 oed ac yn hŷn sydd â phwysau iach

**Pwyntiau Allweddol:**

- Yn 2022/23, roedd llai na hanner (46.6%) yr oedolion hŷn (65 oed ac yn hŷn) yng Nghaerdydd o bwysau iach. Hwn oedd y pedwerydd ffigur uchaf ar draws ALlau Cymru ac o'i gymharu â chyfartaledd Cymru o 39.6%.

[DS. Nid oes modd cymharu data o Arolwg Cenedlaethol Cymru ar gyfer 2020-21 ymlaen â blynyddoedd blaenorol oherwydd newidiadau sy'n gysylltiedig â'r pandemig i'r fethodoleg.]




*Ffynhonnell: Offeryn Adrodd Fframwaith Canlyniadau Iechyd y Cyhoedd*
*Cynhyrchwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru gan ddefnyddio Arolwg Cenedlaethol Cymru (Llywodraeth Cymru)*


# Cefnogi Pobl Allan o Dlodi




# Canran y bobl sy’n byw mewn aelwydydd mewn amddifadedd materol

**Pwyntiau Allweddol:**


- Yn 2022/23, roedd 15% o’r bobl a oedd yn byw mewn cartrefi yng Nghaerdydd mewn amddifadedd materol. Roedd hyn ychydig yn is na chyfartaledd Cymru (16%) ac roedd yn gwneud Caerdydd yn berfformiwr lefel ganol ar draws ALlau Cymru.
- Fodd bynnag, yn dilyn sawl blwyddyn o ostyngiad yn y ffigurau, roedd hyn yn uwch na’r ffigur ar gyfer 2021-22 o 12%.
- Mae amddifadedd incwm ar ei uchaf yn 'Arc Ddeheuol' y ddinas, er bod pocedi o fewn ardaloedd eraill yng Nghaerdydd (Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019).




*Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru, Llywodraeth Cymru*




*Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru, Llywodraeth Cymru*




*Ffynhonnell: Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019, Llywodraeth Cymru*
*DS. Nifer yr Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is ym mhob ardal wedi’i nodi mewn cromfachau*

# Nifer y cyflogwyr ag achrediad Cyflog Byw Gwirioneddol

**Pwyntiau Allweddol:**

- Ym mis Ebrill 2025, roedd 225 o gyflogwyr Cyflog Byw Gwirioneddol achrededig yng Nghaerdydd, cynnydd o 217 ers mis Mawrth 2024 ac o'i gymharu â lefel waelodlin o 82 yn 2019. Fodd bynnag, mae'n is na tharged mis Tachwedd 2024 o 260.
- Y targed ar gyfer mis Tachwedd 2025 yw 300 o gyflogwyr.

| Caerdydd | Gwaelodlin yn 2019 | Sefyllfa 4 Hyd 22 | Sefyllfa 6 Chwef 23 | Sefyllfa 4 Maw 24 | Position 1 Apr 25 | Targedau ar gyfer Tach 2023 | Targedau ar gyfer Tach 2024 | Targedau ar gyfer Tach 2025 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer y cyflogwyr ag achrediad Cyflog Byw Gwirioneddol | 82 | 184 | 197 | 217 | **225** | *210* | *260* | *300* |

*Ffynhonnell: Cynnal Cymru*

# Nifer y gweithwyr sy’n cael codiad cyflog i'r Cyflog Byw Gwirioneddol o leiaf

**Pwyntiau Allweddol:**

- Ym mis Ebrill 2025, roedd 10,211 o weithwyr yng Nghaerdydd a oedd wedi cael codiad cyflog i'r Cyflog Byw Gwirioneddol o leiaf, gostyngiad o 13,322 ers mis Mawrth 2024 ac o'i gymharu â lefel waelodlin o 4,524 yn 2019.
- Er bod ffigur 2023 yn rhagori ar y targed ar gyfer mis Tachwedd 2024 o 12,800 o weithwyr, mae'r nifer diweddaraf wedi gostwng yn is na'r lefel hon.
- Ar gyfer mis Tachwedd 2025 y targed yw 13,900 o weithwyr.


| Caerdydd | Gwaelodlin yn 2019 | Sefyllfa 4 Hyd 22 | Sefyllfa 6 Chwef 23 | Sefyllfa 4 Maw 24 | Position 1 Apr 25 | Targedau ar gyfer Tach 2023 | Targedau ar gyfer Tach 2024 | Targedau ar gyfer Tach 2025 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer y gweithwyr sy’n cael codiad cyflog i'r Cyflog Byw Gwirioneddol o leiaf | 4,524 | 10,980 | 10,873 | 13,322 | **10,211** | *11,700* | *12,800* | *13,900* |

*Ffynhonnell: Cynnal Cymru*


# Disgwyliad Oes Iach Adeg Geni (Dynion)


**Key Points:**

- Ar gyfer 2021-23, disgwyliad oes iach (DOI) dynion adeg genedigaeth yng Nghaerdydd (61.27 mlynedd) oedd yr uchaf o'r dinasoedd mawr yng Nghymru a Lloegr.
- Er gwaethaf dilyn tuedd tuag i lawr ers 2018-20, mae DOI ar gyfer dynion yng Nghaerdydd wedi rhagori ar gyfartaledd Cymru yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ac wedi bod yn debyg iawn i'r ffigur ar gyfer Lloegr.
- Roedd disgwyl y byddai dynion o Gaerdydd yn treulio pedair rhan o bump (78.26%) o'u bywyd mewn iechyd da yn 2021-23, y drydedd gyfran uchaf allan o'r dinasoedd mawr yng Nghymru a Lloegr, ac yn uwch na ffigurau Cymru a Lloegr.
- Mae'r ffigur hwn hefyd wedi gostwng yng Nghaerdydd yn ystod y blynyddoedd diwethaf ond, er gwaethaf hyn, mae wedi rhagori ar rai Cymru a Lloegr ers 2018-20.




*DS. Nid yw echelin fertigol yn dechrau ar sero*









*Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol*

# Disgwyliad Oes Iach adeg Geni: Bwlch Amddifadedd (Dynion)

**Pwyntiau Allweddol:**

- Ar gyfer 2018-20, roedd disgwyliad oes iach (DOI) ar gyfer dynion adeg geni yn amrywio gan 13.7 mlynedd rhwng yr ardaloedd â'r amddifadedd lleiaf a’r ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf yng Nghaerdydd, yr 8fed ffigur uchaf ar draws ALlau Cymru.
- Mae bwlch amddifadedd Caerdydd wedi mynd y tu hwnt i fwlch amddifadedd Cymru yn gyson ers 2011-13, er yn 2018-20 roedd ond ychydig yn uwch na ffigur Cymru (13.3 mlynedd).
- Cynyddodd y bwlch amddifadedd yng Nghaerdydd rhwng 2013-15 a 2016-18, gan gyrraedd uchafbwynt o 21.1 mlynedd. Fodd bynnag, ers y cyfnod hwn mae'r ffigur wedi gostwng gan achosi iddo gyfateb bron â chyfartaledd Cymru.








*Ffynhonnell: Cynhyrchwyd gan Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan ddefnyddio ABB, Cyfrifiad 2011, Marwolaethau Iechyd Cyhoeddus, ACB (SYG) a MALlC 2019 (LlC)*


# Disgwyliad Oes Iach Adeg Geni (Menywod)


**Key Points:**

- Ar gyfer 2021-23, disgwyliad oes iach (DOI) menywod adeg genedigaeth yng Nghaerdydd (61.02 mlynedd) oedd yr ail uchaf o'r dinasoedd mawr yng Nghymru a Lloegr.
- Er gwaethaf dilyn tuedd tuag i lawr ers 2018-20, mae DOI ar gyfer menywod yng Nghaerdydd wedi rhagori ar gyfartaledd Cymru yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ac wedi bod yn eithaf tebyg i'r ffigur ar gyfer Lloegr.
- Roedd disgwyl y byddai menywod o Gaerdydd yn treulio tua thri chwarter (74.04%) o'u bywyd mewn iechyd da yn 2021-23, yr ail gyfran uchaf allan o'r dinasoedd mawr yng Nghymru a Lloegr, ac yn uwch na ffigurau Cymru.
- Mae'r ffigur hwn hefyd wedi gostwng yng Nghaerdydd yn ystod y blynyddoedd diwethaf ond, er gwaethaf hyn, mae wedi rhagori ar gyfran Cymru ers 2017-19.




*DS. Nid yw echelin fertigol yn dechrau ar sero*









*Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol*

# Disgwyliad Oes Iach adeg Geni: Bwlch Amddifadedd (Menywod)

**Pwyntiau Allweddol:**

- Ar gyfer 2018-20, roedd disgwyliad oes iach (DOI) ar gyfer menywod adeg geni yn amrywio 18.5 mlynedd rhwng yr ardaloedd â'r amddifadedd lleiaf a ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf yng Nghaerdydd, y 5ed ffigur uchaf ar draws ALlau Cymru ac yn uwch na Chymru gyfan (16.9 mlynedd).
- Gostyngodd bwlch amddifadedd Caerdydd yn sydyn rhwng 2013-15 a 2015-17, gan achosi iddo ostwng islaw'r ffigur ar gyfer Cymru gyfan. Ers hynny, mae wedi amrywio o gwmpas cyfartaledd Cymru ac yn 2018-20 roedd yr uchaf o'r ddau ffigur.









*Ffynhonnell: Cynhyrchwyd gan Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan ddefnyddio ABB, Cyfrifiad 2011, Marwolaethau Iechyd Cyhoeddus, ACB (SYG) a MALlC 2019 (LlC)*


# Canran y babanod pwysau geni isel

**Pwyntiau Allweddol:**

- Yn 2023, roedd gan 6.0% o enedigaethau byw sengl yng Nghaerdydd bwysau geni isel (h.y. o dan 2,500g). Roedd hyn ychydig yn is na'r ffigur ar gyfer Cymru gyfan, ond roedd yn berfformiwr lefel ganol ar draws ALlau Cymru.
- Cynyddodd cyfradd Caerdydd rhwng 2018 a 2019 ond ers hynny mae wedi bod yn gymharol sefydlog.
- Ar gyfer 2021-23, canran y babanod â phwysau geni isel yn yr ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf yng Nghaerdydd oedd 8.0%, o'i gymharu â 4.6% yn yr ardaloedd â'r amddifadedd lleiaf. Roedd hefyd yn rhagori ar gyfartaledd Cymru yn gyfforddus.





*Ffynhonnell: Iechyd Cyhoeddus Cymru*

# Canran yr oedolion sy’n bwyta 5 dogn neu fwy o ffrwythau a llysiau bob dydd


**Pwyntiau Allweddol:**

- Mae ffigurau cyfunol Arolwg Cenedlaethol Cymru 2021-22 a 2022-23 yn dangos bod dwy ran o bump (40.6% - wedi'u safoni yn ôl oedran) o oedolion yng Nghaerdydd yn bwyta pum dogn neu fwy o ffrwythau a llysiau y dydd, y gyfran uchaf ar draws ALlau Cymru ac yn uwch na chyfartaledd Cymru (29.1%). Fodd bynnag, mae hyn yn dal i olygu nad yw tri o bob pump o oedolion yn bwyta pum dogn y dydd.
- Yn ôl Arolwg Holi Caerdydd 2024, roedd llai na un rhan o bump (16.6%) o'r rheini oedd yn byw yn yr ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf yn y ddinas yn bwyta o leiaf pum dogn y dydd, o'i gymharu â bron chwarter (23.5%) yn yr ardaloedd â'r amddifadedd lleiaf - gwahaniaeth o 6.9 pwynt canran. Fodd bynnag, roedd hyn yn llai na hanner y bwlch a welwyd yn y flwyddyn flaenorol (14.0 pwynt canran).

[DS. Nid oes modd cymharu data o Arolwg Cenedlaethol Cymru ar gyfer 2020-21 ymlaen â blynyddoedd blaenorol oherwydd newidiadau sy'n gysylltiedig â'r pandemig i'r fethodoleg.]




Ffynhonnell: *Arolwg Cenedlaethol Cymru*





*Ffynhonnell: Arolwg Holi Caerdydd, Cyngor Caerdydd*

# Canran yr oedolion sy'n actif am lai na 30 munud yr wythnos


**Pwyntiau Allweddol:**

- Mae ffigurau cyfunol Arolwg Cenedlaethol Cymru 2021-22 a 2022-23 yn dangos bod dros un rhan o bump (21.4% - wedi'u safoni yn ôl oedran) o oedolion yng Nghaerdydd wedi gwneud llai na 30 munud o weithgarwch corfforol cymedrol mewn wythnos. Fodd bynnag, hon oedd yr ail gyfran isaf ar draws ALlau Cymru ac yn is na chyfartaledd Cymru (30.5%).
- Yn ôl Arolwg Holi Caerdydd 2024, gwnaeth bron chwarter (23.3%) y rheini sy'n byw yn yr ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf yng Nghaerdydd lai na 30 munud o weithgarwch corfforol cymedrol ar draws yr wythnos, mwy na dwbl y ffigur ar gyfer y rheini o'r ardaloedd â'r amddifadedd lleiaf (12.3%). Roedd hyn yn cynrychioli bwlch amddifadedd o 11.0 pwynt canran, cynnydd o 13.3 pwynt canran yn 2023.

[DS. Nid oes modd cymharu data o Arolwg Cenedlaethol Cymru ar gyfer 2020-21 ymlaen â blynyddoedd blaenorol oherwydd newidiadau sy'n gysylltiedig â'r pandemig i'r fethodoleg.]




*Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru*





*Ffynhonnell: Arolwg Holi Caerdydd, Cyngor Caerdydd*

# Canran yr oedolion sy'n dweud bod eu pwysau'n iach yn ôl lefel amddifadedd (gordewdra yn ôl pumed amddifadedd)


**Pwyntiau Allweddol:**

- Mae ffigurau cyfunol Arolwg Cenedlaethol Cymru 2021-22 a 2022-23 yn dangos bod tua dwy ran o bump (39.3% - wedi'u safoni yn ôl oedran) o oedolion yng Nghaerdydd o bwysau iach. Hon oedd y seithfed gyfran uchaf ar draws ALlau Cymru ac roedd yn uwch na chyfartaledd Cymru (36.3%).
- Mae ffigurau ar gyfer 2009-2012 yn dangos bod gordewdra mewn oedolion yn gysylltiedig ag amddifadedd gyda lefelau yn yr ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf yng Nghaerdydd bron ddwywaith y rheini yn yr ardaloedd â'r amddifadedd lleiaf.

[DS. Nid oes modd cymharu data o Arolwg Cenedlaethol Cymru ar gyfer 2020-21 ymlaen â blynyddoedd blaenorol oherwydd newidiadau sy'n gysylltiedig â'r pandemig i'r fethodoleg.]




*Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru*





*Ffynhonnell: Iechyd Cyhoeddus Cymru*

# Canran yr oedolion sy’n smygwyr ar hyn o bryd


**Pwyntiau Allweddol:**

- Mae ffigurau cyfunol Arolwg Cenedlaethol Cymru 2021-22 a 2022-23 yn dangos bod dros ddegfed (12.3% - wedi’u safoni yn ôl oedran) o oedolion yng Nghaerdydd yn smygwyr. Mae hyn yn ei gwneud yn berfformiwr lefel ganol ar draws yr ALlau yng Nghymru ond mae'n is na chyfartaledd Cymru (13.0%).
- Yn 2022-23, ar draws Clystyrau Meddygon Teulu Caerdydd, mae’r nifer uchaf y bobl sy’n smygu yn ardaloedd De-ddwyrain Caerdydd a Chanol a De Caerdydd, a'r nifer lleiaf yng Ngorllewin a Gogledd Caerdydd.

[DS. Nid oes modd cymharu data o Arolwg Cenedlaethol Cymru ar gyfer 2020-21 ymlaen â blynyddoedd blaenorol oherwydd newidiadau sy'n gysylltiedig â'r pandemig i'r fethodoleg.]




*Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru*






*Cynhyrchwyd gan Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan ddefnyddio ACC (LlC), GDC (IGDC) a MALIC 2019 (LlC)*

# Fforddiadwyedd Tai: Cymhareb pris tai i gyflog blynyddol gros canolrifol (SYG)

**Pwyntiau Allweddol:**

- Yn 2024, tai yng Nghaerdydd oedd y drydedd ddinas fawr leiaf fforddiadwy yng Nghymru a Lloegr, y tu ôl i Fryste a Manceinion.
- Ar gyfartaledd, mae eiddo'n costio bron saith gwaith yr enillion blynyddol gros canolrifol. Cyrhaeddodd hyn bron wyth gwaith a hanner yn 2021 ond mae wedi gostwng ers hynny.
- Ers 2002, mae tai Caerdydd wedi bod yn llai fforddiadwy yn gyson nag ar draws Cymru gyfan, ond yn bennaf mae wedi bod yn fwy fforddiadwy na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru a Lloegr.
- Tai yng Nghaerdydd oedd y trydydd lleiaf fforddiadwy ar draws ALlau Cymru yn 2024, o'i gymharu â'r chweched lleiaf fforddiadwy yn 2019.




*Ffynhonnell: SYG*


# Pobl sy’n Cysgu Allan


**Pwyntiau Allweddol:**

- Ar ddiwedd mis Ebrill 2024, amcangyfrifwyd bod 20 o bobl yn cysgu allan yng Nghaerdydd - y ffigur uchaf ar draws Cymru. Roedd hyn yn ddigyfnewid o fis Ebrill 2023 a mis Ebrill 2024 ac o'i gymharu ag uchafswm o 50 ym mis Gorffennaf 2024.

[D.S. Mae Llywodraeth Cymru yn cynghori na argymhellir cymariaethau misol, gan y gallai fod effeithiau tymhorol ar ddigartrefedd neu resymau eraill dros amrywiadau. Gall y rhain ddod yn gliriach, a sylwebaeth bellach yn bosib, wrth i ddata ddod ar gael yn y blynyddoedd dilynol.]

[D.S. Rhwng 2015 a 2019, cynhaliodd Llywodraeth Cymru Gyfrif Blynyddol Cenedlaethol o Gysgu Allan, a oedd yn cynnwys 'nifer y bobl sy'n cysgu allan fesul 10,000 o bobl'. Fodd bynnag, cafodd hyn ei atal yn 2020 oherwydd y pandemig ac nid yw wedi'i gynnal ers hynny. Mae'r data a ddefnyddir ar gyfer y dangosydd hwn wedi cael ei ddisodli gan amcangyfrifon misol newydd.]








*Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru*


# Tlodi Bwyd

**Pwyntiau Allweddol:**


- Yn 2024/25, dosbarthodd Ymddiriedolaeth Trussell dros 20k o barseli bwyd brys o ganolfannau dosbarthu Caerdydd. Cododd y ffigur hwn yn sydyn rhwng 2021/22 a 2022/23, ond mae wedi aros yn gymharol ddigyfnewid ers hynny.
- Yn ôl Arolwg Holi Caerdydd 2024, yn y 6 mis blaenorol, roedd 15.9% o'r ymatebwyr wedi cael prydau llai na'r arfer neu wedi hepgor prydau bwyd, 8.6% wedi methu prydau bwyd er mwyn fforddio talu eu biliau, roedd 7.1% wedi bod eisiau bwyd ond heb fwyta, 4.2% heb fwyta am ddiwrnod cyfan, ac roedd 4.4% wedi derbyn bwyd gan fanc bwyd neu elusen.
- Roedd gan fwy na phump (21.1%) o'r ymatebwyr rywun yn eu cartref a oedd wedi profi'r mathau hyn o ddiffyg diogeled bwyd yn ystod y chwe mis blaenorol, cynnydd o 20.0% ar gyfer 2023.
- Yn yr ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf y ddinas roedd y ffigur hwn mor uchel â 41.3%, bron bum gwaith yr hyn a welwyd yn yr ardaloedd â'r amddifadedd lleiaf lle'r oedd y ffigur yn dal bron yn ddegfed (8.7%).




*Ffynhonnell: Ymddiriedolaeth Trussell*




*Ffynhonnell: Arolwg Holi Caerdydd, Cyngor Caerdydd*





*Ffynhonnell: Arolwg Holi Caerdydd, Cyngor Caerdydd*


# Tlodi Tanwydd

**Key Points:**

- Yn 2018, roedd gan Gaerdydd un o'r lefelau isaf o dlodi tanwydd ar draws ALlau Cymru.
- Roedd 9% o aelwydydd Caerdydd mewn tlodi tanwydd o'i gymharu â 23% yng Ngwynedd.
- O ran effeithlonrwydd ynni, roedd gan dros hanner (54.64%) yr anheddau yng Nghaerdydd Dystysgrif Perfformiad Ynni ym Mand C neu'n uwch ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben yn 2024. Fodd bynnag, hwn oedd yr ail ffigur uchaf ar draws y dinasoedd mawr yng Nghymru a Lloegr.




*Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru*




*Ffynhonnell: SYG*


# Cymunedau Diogel, Hyderus a Grymus




# Canran y bobl sy’n cytuno eu bod yn perthyn i’r ardal; bod pobl o wahanol gefndiroedd yn dod ymlaen yn dda gyda’i gilydd; a bod pobl yn trin ei gilydd â pharch

**Pwyntiau Allweddol:**


- Yn 2021-22, roedd cydlyniant cymunedol yng Nghaerdydd ychydig yn is na chyfartaledd Cymru - roedd 63% yn cytuno eu bod yn perthyn i'r ardal; bod pobl o gefndiroedd gwahanol yn dod ymlaen yn dda gyda’i gilydd; a bod pobl yn trin ei gilydd â pharch (Cymru 64%).
- Roedd hyn yn ostyngiad o 69% yn 2020-21 ond yn gynnydd o 41% yn 2012-13.
- Yn ôl Arolwg Holi Caerdydd 2024, roedd bron tri chwarter (73.2%) o'r rheini sy'n byw yn ardaloedd â'r amddifadedd lleiaf Caerdydd yn cytuno bod eu cymdogaeth yn fan lle mae pobl yn dod ymlaen yn dda gyda’i gilydd ac yn helpu ei gilydd, o'i gymharu ag ychydig dros ddwy ran o bump (43.2%) o’r rheini yn yr ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf.




*Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru*




*Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru*






*Ffynhonnell: Arolwg Holi Caerdydd, Cyngor Caerdydd*

# Canran y bobl sy’n teimlo eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau sy’n effeithio ar eu hardal leol

**Pwyntiau Allweddol:**

- Yn 2021-22, roedd traean (33%) o bobl Caerdydd yn teimlo eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardal leol - y pedwerydd ffigur uchaf ar y cyd ar draws ALlau Cymru ac yn uwch na chyfartaledd Cymru (30%).
- Gostyngodd cyfran Caerdydd i lefel isel o 21% yn 2018-19 ond ers hynny mae wedi cynyddu i’w lefel uchaf ers y gofynnwyd y cwestiwn am y tro cyntaf yn 2012-13.
- Rhwng 2012-13 a 2018-19 roedd yn uwch na’r ffigur cyfatebol ar gyfer Cymru gyfan yn bennaf.








*Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru*


# Canran y bobl sy'n teimlo'n ddiogel yn eu cartref, wrth gerdded yn yr ardal leol ac wrth deithio

**Pwyntiau Allweddol:**

- Yn 2021-22, roedd llai na dwy ran o dair (63%) o bobl yng Nghaerdydd yn teimlo'n ddiogel yn eu cartref, wrth gerdded yn yr ardal leol, ac wrth deithio. Roedd hyn yn is na chyfartaledd Cymru (66%) ac yn ostyngiad o 71% yn 2018-19.
- Yn ôl Arolwg Holi Caerdydd 2024, dim ond traean (33.2%) o'r ymatebwyr oedd yn teimlo'n ddiogel yn cerdded yng nghanol y ddinas ar ôl iddi dywyllu, er bod hyn wedi cynyddu'n araf yn ystod y blynyddoedd diwethaf o 29.7% yn 2021.
- Gostyngodd y ffigur hwn i tua un rhan o bump (21.1%) o'r ymatebwyr sy'n nodi eu bod yn anabl a thraean (29.0%) o fenywod.




*Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru*




*Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru*

**Canran y bobl sy'n teimlo'n ddiogel mewn gwahanol sefyllfaoedd, 2024**


| % sy'n Teimlo'n | Gartref | | Cerdded yn eich cymdogaeth | | Cerdded yng nghanol y ddinas | | Teithio mewn bws | | Wrth feicio yng Nghaerdydd | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | *Golau dydd* | *Wedi iddi* | *Golau dydd* | *Wedi iddi* | *Golau dydd* | *Wedi iddi* | *Golau dydd* | *Wedi iddi* | *Golau dydd* | *Wedi iddi* |
| **Yn gyffredinol** | *97.1* | *86.9* | *92.8* | *58.0* | *81.9* | *33.2* | *93.0* | *58.0* | *65.8* | *30.8* |
| **Dan 35 oed** | *98.4* | *88.3* | *93.0* | *55.6* | *86.2* | *39.5* | *90.2* | *62.5* | *76.9* | *41.0* |
| **55+** | *97.4* | *89.1* | *93.8* | *61.9* | *84.1* | *32.4* | *94.9* | *60.4* | *59.9* | *26.9* |
| **Benyw** | *97.4* | *85.6* | *92.4* | *53.1* | *84.0* | *29.0* | *94.0* | *53.3* | *65.1* | *27.0* |
| **Gwryw** | *96.8* | *90.2* | *93.4* | *66.7* | *81.3* | *40.2* | *93.1* | *67.5* | *67.5* | *35.6* |
| **Ethnig** | *98.0* | *86.5* | *93.6* | *56.5* | *87.5* | *43.4* | *93.3* | *63.1* | *77.8* | *41.5* |
| **Uniaethu fel** | *93.4* | *77.4* | *85.9* | *44.5* | *74.2* | *21.1* | *86.4* | *45.5* | *56.2* | *25.1* |
| **Siaradwr** | *98.9* | *87.2* | *97.2* | *63.3* | *82.8* | *40.1* | *96.0* | *65.1* | *65.7* | *33.8* |
| **Yr Arc** | *96.3* | *82.3* | *89.3* | *45.1* | *80.4* | *36.9* | *91.6* | *56.9* | *67.1* | *34.7* |
| **Plant yn y Cartref** | *96.8* | *84.5* | *92.2* | *58.3* | *79.4* | *34.2* | *92.2* | *57.6* | *69.7* | *31.7* |
| **LHDTC+** | *97.2* | *85.8* | *92.1* | *56.5* | *87.0* | *37.4* | *90.7* | *61.8* | *73.1* | *39.9* |


*Ffynhonnell: Arolwg Holi Caerdydd, Cyngor Caerdydd*

# Cyfran y bobl sydd wedi troseddu sy’n aildroseddu (oedolion a phobl ifanc)

**Pwyntiau Allweddol:**

- Ar gyfer y deuddeg mis a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2023, Caerdydd (34.0%) oedd â'r ail gyfradd uchaf o aildroseddu ar draws y dinasoedd mawr yng Nghymru a Lloegr, yn ogystal â'r ail uchaf ymysg ALlau Cymru.
- Mae'r gyfradd hefyd yn uwch na chyfraddau Cymru a Lloegr yn gyson rhwng 2017 a 2023.









*Ffynhonnell: Y Weinyddiaeth Gyfiawnder*

# Canran y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau camddefnyddio sylweddau a adroddodd welliant yn eu hansawdd bywyd

**Pwyntiau Allweddol:**

- Yn 2024/25, nododd llai na thri chwarter (74%) y bobl sy'n derbyn gwasanaethau camddefnyddio sylweddau yng Nghaerdydd welliant yn ansawdd eu bywyd.
- Roedd hyn ar ei lefel gydradd isaf (o fan cychwyn yn 2015/16), ar ôl gostwng yn ystod y blynyddoedd diwethaf o uchafswm o 83% yn 2020/21, a hwn oedd yr ail ffigur isaf ar draws ALlau Cymru. Fodd bynnag, roedd yn ddigyfnewid o 2023/24.








*Ffynhonnell: Cronfa Ddata Genedlaethol Cymru ar Gamddefnyddio Sylweddau*


# Canran y Bobl sy’n Gwirfoddoli

**Pwyntiau Allweddol:**


- Yn 2022/23, gwirfoddolodd bron traean (32%) o oedolion yng Nghaerdydd, y chweched ffigur uchaf ar draws ALlau Cymru ac yn uwch na chyfartaledd Cymru (30%).
- Mae lefelau gwirfoddoli yng Nghaerdydd wedi cynyddu yn ystod y blynyddoedd diwethaf ar ôl gostwng i lefel isel o 26% yn 2019-20.
- Mae ffigurau Arolwg Holi Caerdydd 2024 yn dangos bod gwirfoddoli yn fwy cyffredin yn gyffredinol wrth i lefelau amddifadedd ostwng. Gwirfoddolodd llai na chwarter (21.4%) o'r ymatebwyr o’r ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf yn y ddinas, o'i gymharu â bron traean (31.8%) yn yr ardaloedd â'r amddifadedd lleiaf. Fodd bynnag, roedd gan y pumed â'r amddifadedd mwyaf nesaf yr ail gyfradd wirfoddoli uchaf o 29.8%.




*Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru*




*Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru*




*Ffynhonnell: Arolwg Holi Caerdydd, Cyngor Caerdydd*


# Prifddinas sy'n Gweithio dros Gymru




# Cyfradd ddiweithdra'r boblogaeth 16 oed ac yn hŷn sy'n economaidd weithgar

**Pwyntiau Allweddol:**

- Y gyfradd ddiweithdra (yn seiliedig ar fodelau) yng Nghaerdydd am y deuddeg mis a ddaeth i ben ym mis Rhagfyr 2024 oedd 3.9%. Roedd hyn yn ei gwneud yn berfformiwr lefel ganol ymysg dinasoedd mawr y DU. Fodd bynnag, roedd yn uwch na'r ffigurau cyfatebol ar gyfer Cymru (3.2%) a Phrydain Fawr (3.8%) a dyma'r gyfradd gydradd ail uchaf ar draws ALlau Cymru.
- Ar ôl cyrraedd uchafswm o 10.3% ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Rhagfyr 2012, dangosodd diweithdra yng Nghaerdydd duedd tuag i lawr tan y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Rhagfyr 2020. Fodd bynnag, ers yr adeg hon, mae'r gyfradd wedi bod yn fwy cyfnewidiol, gan amrywio rhwng 3.1% a 5.1%. Mae'n bosib bod hyn oherwydd problemau gyda'r set ddata / gyfradd ymateb ers y pandemig sydd wedi achosi dirywiad yn ansawdd data awdurdodau lleol.








*Ffynhonnell: Diweithdra yn seiliedig ar fodelau, Arolwg Blynyddol y Boblogaeth*


# Cyfradd ddiweithdra’r boblogaeth 16 oed ac yn hŷn sy’n economaidd weithgar (cyfradd cyfrif hawlwyr / pumed amddifadedd)

**Pwyntiau Allweddol:**

- Gwnaeth effaith y pandemig ar ddiweithdra achosi i'r gyfradd cyfrif hawlwyr yng Nghaerdydd ddyblu yng ngwanwyn 2020. Fodd bynnag, gwnaeth y ffigur hwn barhau i ostwng o fis Mawrth 2021, gan ostwng i isafswm o 3.4% ym mis Ionawr 2023, er bod hyn yn dal i fod yn uwch na'i lefel cyn y pandemig. Ers yr adeg hon, mae'r gyfradd wedi bod yn gymharol sefydlog ond mae wedi dechrau cynyddu eto dros y flwyddyn ddiwethaf.
- Mae cyfradd Caerdydd wedi rhagori ar gyfradd Cymru ers dechrau 2020. Fodd bynnag, ers mis Rhagfyr 2022, nid yw wedi bod yn uwch na chyfradd y DU. Ym mis Mai 2025, roedd cyfradd Caerdydd yn 4.0% o’i gymharu â 3.4% yng Nghymru a 4.1% ar gyfer y DU.
- Nid yw diweithdra yn taro’n gyfartal ar draws y ddinas, gyda chyfradd cyfrif hawlwyr tua 5.5 gwaith yn uwch ar gyfer yr ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf yng Nghaerdydd (8.2%) o’i gymharu â’r ardaloedd â'r amddifadedd lleiaf (1.5%).




*Ffynhonnell: Cyfrif Hawlwyr*






*Ffynhonnell: Cyfrif Hawlwyr/Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019, Llywodraeth Cymru/ Amcangyfrifon Poblogaeth canol 2022, SYG*

# Gwerth Ychwanegol Crynswth y pen yng Nghaerdydd

**Pwyntiau Allweddol:**

- Yn 2023, roedd GYC y pen yng Nghaerdydd yn £40,064, yn gyfforddus uwchben ffigurau cyfatebol Cymru a'r DU, fel y bu ers 1998.
- Fodd bynnag, dim ond perfformiwr lefel ganol ydoedd ar draws dinasoedd mawr y DU, ac mae’r bwlch mawr mewn GYC y pen rhwng Caerdydd a rhai dinasoedd, sef Manceinion a Chaeredin, yn dangos bod angen i Gaerdydd wneud cynnydd yn y maes hwn.
- Er gwaethaf gostyngiadau dros dro oherwydd argyfwng ariannol 2008 a phandemig COVID-19, mae GYC y pen wedi dilyn tuedd tuag i fyny yng Nghaerdydd ers 1998.
- Rhwng 2018 a 2023, cynyddodd GYC y pen yng Nghaerdydd gan 20.4%, er bod hyn ychydig yn is na'r cynnydd a welwyd ledled Cymru (21.3%) a'r DU (24.5%).





*Ffynhonnell: SYG*


*DS. Mae GYC yn defnyddio data prisiau cyfredol. Mae ffigwr y DU ar gyfer y Deyrnas Unedig ac eithrio regio-ychwanegol. Mae'r ffigurau diweddaraf yn rhai dros dro*

# Incwm Gwario Gros Aelwydydd y pen yng Nghaerdydd

**Pwyntiau Allweddol:**

- Yn 2022, roedd incwm gwario gros aelwydydd yng Nghaerdydd yn £19,106. Roedd hyn yn debyg i gyfartaledd Cymru, ond yn sylweddol is na chyfartaledd y DU (£22,789) a'r lefel a welwyd mewn rhai dinasoedd mawr y DU, sef Bryste a Chaeredin.
- Ers 1997, mae ffigur Caerdydd wedi dilyn tuedd tuag i fyny er bod y bwlch gyda'r DU wedi tueddu i gynyddu dros amser.




*Ffynhonnell: SYG*


*DS. Mae'r ffigurau diweddaraf yn rhai dros dro*


# Canran y swyddi â thâl bob awr sy’n is na’r cyflog byw

**Pwyntiau Allweddol:**

- Mae canlyniadau dros dro ar gyfer 2024 yn dangos bod 10.7% o weithwyr Caerdydd yn derbyn tâl bob awr sy’n is na'r cyflog byw.
- Mae'r ganran hon yn sylweddol is na'r ffigurau ar gyfer Cymru (15.8%) a'r DU (15.7%), yn ogystal â'r mwyafrif o ddinasoedd mawr eraill y DU. Dyma hefyd yw'r ail ganran isaf ar draws ALlau Cymru.
- Mae'r data hwn yn adlewyrchu llwyddiant mudiad Cyflog Byw Gwirioneddol Caerdydd.
- Fodd bynnag, er bod cyfran Caerdydd wedi gostwng o 14.3% yn 2020 i isafswm o 8.2% yn 2022, mae wedi cynyddu'n raddol eto dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf.

[DS: Data yn seiliedig ar nifer a chyfran y gweithwyr yn y DU sy'n ennill llai na'r cyflog byw fel y'u diffinnir gan y Sefydliad Cyflog Byw]




*Ffynhonnell: SYG*


*DS. Mae'r ffigurau diweddaraf yn rhai dros dro*


# Canran y boblogaeth 16-64 oed â chymhwyster RQF4+ (NVQ4+ yn flaenorol)

**Pwyntiau Allweddol:**

- Ar gyfer y deuddeg mis a ddaeth i ben ym mis Rhagfyr 2024, roedd dros hanner (55.0%) poblogaeth oedolion Caerdydd yn gymwys i lefel 4 RQF ac uwch, cynnydd o 50.7% ers y flwyddyn flaenorol.
- Dyma'r pedwerydd ffigur uchaf ar draws dinasoedd mawr y DU, yn ogystal â'r gyfran uchaf ymysg ALlau Cymru. Roedd hefyd yn rhagori ar gyfartaledd Cymru (44.5%) a'r DU (47.4%), fel sydd wedi bod yn wir ers 2022 (pan ddisodlodd data RQF y set ddata NVQ flaenorol).

[DS. Nid yw'r ffigurau ar gyfer 2022 ymlaen yn debyg i'r blynyddoedd blaenorol oherwydd y newidiadau i'r cwestiynau cymhwyster yn yr Arolwg Llafurlu / Arolwg Blynyddol y Boblogaeth. Mae'r cwestiynau, a oedd yn seiliedig yn flaenorol ar y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol (FfCC), wedi'u diweddaru i adlewyrchu'r Fframwaith Cymwysterau Rheoleiddiedig (RQF).








*Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol y Boblogaeth*

# Nifer y rhaglenni dysgu prentisiaeth y mae trigolion Caerdydd yn dechrau arnynt yn y sector gofal iechyd a gwasanaethau cyhoeddus

**Pwyntiau Allweddol:**

- Ym mlwyddyn academaidd 2023/24, dechreuwyd 1,260 o raglenni dysgu prentisiaeth yn y sector gofal iechyd a gwasanaethau cyhoeddus gan drigolion Caerdydd.
- Dyma oedd yr ail ffigur uchaf a gofnodwyd erioed (o fan cychwyn 2012/13), er ei fod yn is na'r uchafswm o 1,370 a welwyd yn y flwyddyn flaenorol.





*Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru*
*DS. Cyflwynir data ar sail blwyddyn academaidd, sy'n rhedeg o 1 Awst hyd 31 Gorffennaf*


# Canran y bobl sy'n bresennol mewn gweithgareddau celfyddydol, diwylliannol neu dreftadaeth, neu'n cymryd rhan ynddynt, o leiaf 3 gwaith y flwyddyn

**Pwyntiau Allweddol:**


- Yn 2022-23, arweiniodd Caerdydd Gymru yng nghanran ei thrigolion a gymerodd ran mewn bywyd diwylliannol, gyda 83% yn bresennol mewn o leiaf tri digwyddiad yn ystod y flwyddyn.
- Mae'r gyfradd hon yn uwch na chyfartaledd Cymru o 11 pwynt canran ond mae wedi aros yn ddigyfnewid yn gyffredinol ers 2017-18.
- Mae ffigurau o Arolwg Holi Caerdydd 2024 yn dangos bod yr ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf (65.2%) a'r ardaloedd â'r amddifadedd lleiaf (84.6%) yng Nghaerdydd wedi'u gwahanu gan bron 20 pwynt canran o ran cymryd rhan mewn o leiaf un gweithgaredd diwylliannol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gyda'r olaf yn llawer mwy tebygol o fod yn bresennol mewn gweithgaredd diwylliannol.




*Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru, Llywodraeth Cymru*




*Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru, Llywodraeth Cymru*





*Ffynhonnell: Arolwg Holi Caerdydd, Cyngor Caerdydd*

*DS. Mae'r gweithgareddau'n cynnwys; y theatr; cerddoriaeth fyw neu gyngerdd; amgueddfa; oriel gelf; sinema; gweithgarwch diwylliannol arall*


# Canran y bobl 16 oed ac yn hŷn sy'n gallu siarad Cymraeg

**Pwyntiau Allweddol:**

- Yn ôl Arolwg Cenedlaethol Cymru, yn 2022/23, roedd 12% o bobl 16 oed ac yn hŷn yng Nghaerdydd yn gallu siarad Cymraeg, cynnydd o 9% yn 2016-17. Mae'r gyfran hon wedi bod yn gyson is na chyfartaledd Cymru a oedd, yn 2022/23, yn 18%.
- Dangosodd ffigurau Cyfrifiad 2021 fod Caerdydd yn un o bedwar ALlau yn unig yng Nghymru i weld cynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg (3 oed ac yn hŷn) ers 2011.
- At ei gilydd, gwelwyd gostyngiad o bron 24k (-4.2%) yn nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghymru rhwng Cyfrifiad 2011 a 2021, wrth bod Caerdydd wedi gweld cynnydd o dros 6k (+16.4%) - y cynnydd rhifol a chanrannol mwyaf ar draws ALlau Cymru.
- Yn 2021, roedd 12.2% o drigolion Caerdydd (3 oed ac yn hŷn) yn siarad Cymraeg, cynnydd o 11.1% yn 2011. I Gymru, bu gostyngiad yn y ffigur hwn o 19.0% i 17.8% dros yr un cyfnod.




*Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru, Llywodraeth Cymru*




*Ffynhonnell: Cyfrifiad*


# Caerdydd Un Blaned





# Allyriadau $CO_2$ fesul pen o'r boblogaeth

**Pwyntiau Allweddol:**

- Yn 2022, Caerdydd (4.2t) oedd â'r allyriadau $CO_2$ uchaf fesul pen o'r boblogaeth allan o Ddinasoedd Craidd y DU a Chaeredin, ond roedd yn is na chyfartaledd y DU (4.5t). Roedd allyriadau fesul pen o'r boblogaeth ar gyfer Cymru (6.5t) yn sylweddol uwch nag yng Nghaerdydd oherwydd yr allyriadau sylweddol a welwyd yng Nghastell-nedd Port Talbot.
- Yn gyffredinol, mae allyriadau Caerdydd wedi dilyn tuedd tuag i lawr ers 2005 (9.0t), gan gyrraedd lefel isel o 4.2t yn 2020 a 2022, ac maent wedi bod yn gyson is na'r ffigurau cyffredinol ar gyfer y DU (ac eithrio 2005) a Chymru.
- Trafnidiaeth (43.1%) a gyfrannodd y mwyaf at allyriadau $CO_2$ yn 2022, ac yna Domestig (25.7%), Diwydiant (12.9%) a Masnachol (12.1%).
- Cynyddodd cyfran yr holl allyriadau a achoswyd gan Drafnidiaeth o 40.4% yn 2017 i 43.1% yn 2022, er bod gostyngiad yn ystod y pandemig, pan oedd cyfyngiadau symud ar waith.









*Ffynhonnell: BEIS*

# Newid Dulliau Trafnidiaeth Gynaliadwy

**Pwyntiau Allweddol:**

- Yn Arolwg Trafnidiaeth 2024/25, teithiodd 49.1% o'r ymatebwyr i'r gwaith gan ddefnyddio dulliau teithio cynaliadwy, cynnydd bach o 48.7% yn 2023/24 ond yn ostyngiad o'r uchafswm cyn y pandemig o 51.2% yn 2019/20.
- Mae hyn yn gyffredinol yn unol â tharged rhaniad dulliau 50:50 y Cyngor.
- Bu newid sylweddol mewn beicio fel dull teithio rhwng 2014/15 (8.4%) a 2019/20 (15.4%). Fodd bynnag, ers y pandemig, roedd hyn wedi gostwng yn ôl i 11.3% (2024/25). Mewn cyferbyniad, mae'n ymddangos bod y defnydd o fysus a threnau yn fwy poblogaidd ers y pandemig.
- Cafwyd gostyngiad flwyddyn ar ôl blwyddyn rhwng 2014/15 a 2019/20 yn y defnydd o geir, gan ostwng i'w lefel isaf o 48.8%. Fodd bynnag, ers y pandemig, mae'r ffigur hwn eto wedi cynyddu uwchlaw 50%.





*Ffynhonnell: Arolwg Trafnidiaeth, Cyngor Caerdydd*

*DS. Nid oes ffigurau ar gael ar gyfer 2020/21, 2021/22, 2022/23 (ni chynhaliwyd arolwg oherwydd y pandemig)*


# Lefelau Llygredd Aer: Nitrogen Deuocsid (NO2)

**Pwyntiau Allweddol:**


- Yn 2022, Caerdydd (14µg/m3) oedd â'r lefelau llygredd NO2 uchaf yng Nghymru, bron ddwywaith cyfartaledd Cymru (8µg/m3).
- Gostyngodd lefelau NO2 Caerdydd o uchafswm o 24µg/m3 yn 2010 i isafswm o 12µg/m3 yn 2020 (pan effeithiwyd ar y ffigurau gan y pandemig). Dilynwyd hyn gan gynnydd bach yn y blynyddoedd dilynol, wrth i lefelau gweithgarwch ddechrau dychwelyd i'r rhai arferol, er ei fod yn dal i fod yn is na'i lefel cyn y pandemig.
- Mae data modelu 2023 gan DEFRA (ar gyfer sgwariau 1x1km) yn dangos bod y lefelau uchaf o lygredd NO2 yng Nghaerdydd ar eu huchaf yng ngogledd Butetown a gorllewin y Sblot, yn ogystal ag ardaloedd cyfagos, Adamsdown, Cathays a Phlasnewydd.




*Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru*




*Ffynhonnell: DEFRA (data wedi'i fodelu ar gyfer sgwariau 1x1km)*





*Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru*


# Lefelau Llygredd Aer: Deunydd Gronynnol (PM10)

**Pwyntiau Allweddol:**


- Yn 2022, Caerdydd (14µg/m3) oedd â'r lefelau llygredd PM10 uchaf yng Nghymru, ac yn uwch na chyfartaledd Cymru (11µg/m3).
- Dilynodd lefelau PM10 Caerdydd duedd gyffredinol tuag i lawr rhwng 2007, pan oeddent ar uchafswm o 18µg/m3, a 2017. Ers yr adeg hon, maent wedi bod yn gymharol sefydlog, er bod gostyngiad bach yn 2020, pan mae'n debygol bod y pandemig wedi effeithio ar y lefelau.
- Mae data modelu 2023 gan DEFRA (ar gyfer sgwariau 1x1km) yn dangos bod y lefelau uchaf o lygredd PM10 yng Nghaerdydd i'w cael yng ngogledd-orllewin y ddinas, o gwmpas C32 yr M4. Mae lefelau uchel hefyd i'w gweld mewn mannau eraill ar hyd coridor yr M4, yn ogystal ag ar hyd y prif ffyrdd o Bontprennau/Pentref Llaneirwg i ganol Caerdydd (A48/A4161).




*Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru*




*Ffynhonnell: DEFRA (data wedi'i fodelu ar gyfer sgwariau 1x1km)*





*Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru*


# Lefelau Llygredd Aer: Deunydd Gronynnol (PM2.5)

**Pwyntiau Allweddol:**


- Yn 2022, Caerdydd (9µg/m3) oedd â'r lefelau llygredd PM2.5 uchaf yng Nghymru ac roeddent yn uwch na chyfartaledd Cymru (7µg/m3).
- Dilynodd PM2.5 Caerdydd duedd tuag i lawr rhwng 2014 a 2017. Ers yr adeg hon, mae lefelau wedi aros yn gymharol sefydlog, ar wahân i ostyngiad i isafswm o 8µg/m3 yn 2020 (pan effeithiodd y pandemig ar y ffigurau). Dilynwyd hyn gan ddychweliad i lefelau cyn y pandemig, wrth i lefelau gweithgarwch ddechrau dychwelyd i'r rhai arferol.
- Mae data modelu 2023 gan DEFRA (ar gyfer sgwariau 1x1km) yn dangos bod y lefelau uchaf o lygredd PM2.5 yng Nghaerdydd i'w gweld yn rhannau canolog y ddinas, yn enwedig Plasnewydd a'r ardaloedd cyfagos.




*Ffynhonnell: DEFRA (data wedi'i fodelu ar gyfer sgwariau 1x1km)*




*Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru*





*Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru*

# Parciau Achrededig Baner Werdd

**Pwyntiau Allweddol:**

- O ran Gwobr y Faner Werdd, Caerdydd oedd yr ardal fwyaf addurnedig yng Nghymru ar gyfer 2024/25, gyda chyfanswm o 45 safle wedi'u gwobrwyo (22 o Wobrau Llawn a 23 o Wobrau Cymunedol), cynnydd o 41 safle (19 o Wobrau Llawn a 22 o Wobrau Cymunedol) yn y flwyddyn flaenorol.
- Roedd llai na thri chwarter (70.5%) yr holl ymatebwyr i Arolwg Holi Caerdydd 2024 yn fodlon â pharciau a mannau agored y ddinas.
- Yn yr ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf yng Nghaerdydd, dim ond tair rhan o bump (60.3%) o'r ymatebwyr oedd yn fodlon â'r parciau a'r mannau agored.




*Ffynhonnell: Arolwg Holi Caerdydd, Cyngor Caerdydd*

**Safleoedd Baner Werdd a Safleoedd Cymunedol y Faner Werdd yng Nghaerdydd, 2024/25**

| Green Flag Full Award | Green Flag Community Award |
|---|---|
| Parc Bute | Gardd Canolfan Beulah |
| Morglawdd Bae Caerdydd | Gardd Gymunedol Chapter |
| Gwarchodfa Gwlyptir Bae Caerdydd | Coed Y Felin |
| Mynwent Cathays | Gardd Dusty Forge |
| Parc Cathays | Rhandir Cymunedol Fferm y Fforest |
| Ynys Echni | Prosiect Gerddi Byd-eang |
| Fferm y Fforest | Gardd Gegin Grangetown |
| Gerddi'r Grange | Tyfu'n Dda Glan-yr-afon |
| Parc Hailey | Gwarchodfa Natur Leol Howardian |
| Parc y Mynydd Bychan | Gardd Llawfeddygaeth Lansdowne |
| Llyn yr Hendre | Gerddi Llwynfedw |
| Cronfeydd Dŵr Llys-faen a Llanisien | Caeau Chwarae a Pharc Cymunedol Pentref Llaneirwg |
| Parc Cefn Onn | Gardd Gymunedol Maes y Coed |
| Parc y Maltings | Coetiroedd Cymunedol Nant Fawr |
| Parc y Rhath | Rhandiroedd Pafiliwn Pengam |
| Gerddi Bryn Rhymni | Gardd Gymunedol Plasnewydd |
| Sain Ffagan: Amgueddfa Astudiaethau Natur | Gardd Rheilffordd |
| Mynwent Draenen Pen-y-graig ac Amlosgfa Caerdydd | Gardd Gymunedol Glan-yr-afon |
| Parc Tredelerch | Rhandir Cymunedol StarGarAllot |
| Parc Fictoria | Gardd Gymunedol Llaneirwg |
| Gerddi Waterloo | Gardd Pantri Llaneirwg |
| Mynwent y Gorllewin | Gardd Gymunedol San Pedr |
| | Gardd Gymunedol Yr Eglwys Newydd |


*Ffynhonnell: Cadwch Gymru'n Daclus*

# Canran y bobl sy’n byw o fewn pellter cerdded i fan gwyrdd o ansawdd uchel

**Pwyntiau Allweddol:**

- Yn 2018-19, Caerdydd oedd y perfformiwr gorau yng Nghymru o ran hygyrchedd cerdded at fannau gwyrdd lleol.
- Roedd 95% yn ei chael hi'n hawdd cerdded i'w man gwyrdd lleol o'i gymharu â dim ond 83% ym Merthyr Tudful.

[DS. Dim ond yn Arolwg Cenedlaethol Cymru y gofynnwyd y cwestiwn hwn yn 2018-19]





*Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru, Llywodraeth Cymru*

# Canran y nodweddion dynodedig mewn safleoedd cadwraeth gwarchodedig sydd mewn cyflwr 'ffafriol'. Mae safleoedd yn cynnwys Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) ac Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA)

**Pwyntiau Allweddol:**

- Dangosodd Asesiad Sylfaenol Safleoedd Gwarchodedig 2020 a gynhaliwyd gan CNC mai dim ond 15.4% o'r 39 nodwedd ddynodedig yng Nghaerdydd (ar draws 18 safle) oedd mewn cyflwr ffafriol. Roedd hyn yn llai na hanner y gyfran (35.9%) a oedd mewn cyflwr anffafriol. Fodd bynnag, nid oedd cyflwr bron hanner (48.7%) y nodweddion yn hysbys.
- Ar gyfer Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA), roedd 17.2% o'r 29 nodwedd (ar draws 16 safle) yn ffafriol ac roedd 20.7% yn anffafriol. Roedd gan fwy na thri o bob pump (62.1%) gyflwr anhysbys.
- Roedd 8 o'r 10 nodwedd (ar draws dau safle) mewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) mewn cyflwr anffafriol.





*Ffynhonnell: Asesiad Sylfaenol Safleoedd Gwarchodedig 2020, Cyfoeth Naturiol Cymru*


*DS. Mae safleoedd yn cynnwys Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) ac Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA)*

# Hyder wrth brynu bwyd a gynhyrchir mewn ffordd ecogyfeillgar

**Pwyntiau Allweddol:**

- Ar raddfa o 1 i 5, lle mae 1 yn golygu 'ddim yn hyderus o gwbl' a 5 yn golygu 'hyderus iawn', fe sgoriodd lai na dwy ran o bump (37.9%) o'r ymatebwyr i Arolwg Bwyd Caerdydd 2024 eu hunain yn 4 neu'n uwch, gostyngiad o 42.3% yn 2021 a 39.7% yn 2022.
- Y sgôr gyfartalog oedd 3.18 yn 2024, eto sy'n ostyngiad o'r ffigurau ar gyfer 2021 (3.26) a 2022 (3.22).








*Ffynhonnell: Arolwg Bwyd, Cyngor Caerdydd*

# Canran sy'n teimlo bod yna fudiad bwyd da yng Nghaerdydd

**Pwyntiau Allweddol:**

- Yn 2024, roedd ychydig dros draean (34.6%) o'r ymatebwyr i Arolwg Bwyd Caerdydd yn teimlo bod yna fudiad bwyd da yng Nghaerdydd.
- Roedd hyn ychydig yn is na'r ffigurau ar gyfer 2021 (36.4%) a 2022 (36.6%).




*Ffynhonnell: Arolwg Bwyd, Cyngor Caerdydd*

# Llifogydd

**Pwyntiau Allweddol:**

- Mae ffigurau diweddaraf (2024) CNC yn dangos bod tua 17.7k o eiddo preswyl yng Nghaerdydd mewn perygl o lifogydd gan afonydd, 7.6k o ddŵr wyneb, a 12.7k o'r môr.
- Yn ôl Cofrestr Cymunedau mewn Perygl Cymru 2024 (senario a reolir – yn seiliedig ar bresenoldeb amddiffynfeydd a rhybuddion llifogydd), mae 5 ardal yng Nghaerdydd (Treganna, Glan-yr-afon, y Rhath, yr Eglwys Newydd, Grangetown) wedi'u rhestru ymysg y 25 ardal yng Nghymru sydd fwyaf mewn perygl o lifogydd gan afonydd, wrth i 2 ardal (Grangetown, Butetown) gael eu rhestru yn y 25 ardal sydd fwyaf mewn perygl o lifogydd o'r môr. Mae mwyafrif yr ardaloedd hyn o fewn Arc Ddeheuol y ddinas.
- O 17 Mehefin 2025, mae 8,112 o gyfeiriadau mewn ardaloedd sydd mewn perygl yng Nghaerdydd wedi'u cofrestru gyda Gwasanaeth Rhybuddion Llifogydd CNC; tua thraean (30.3%) o'r holl gyfeiriadau o fewn yr ardal darged.
- Bydd effeithiau sy'n gysylltiedig â newid hinsawdd yn cynyddu nifer yr eiddo, y seilwaith a'r gwasanaethau allweddol a fydd mewn perygl o lifogydd o bob ffynhonnell. Gallai lleoedd nad oeddent mewn perygl o'r blaen fod yn agored i ddifrod a gallai llawer sydd mewn perygl ar hyn o bryd fod mewn mwy o berygl. Disgwylir y bydd digwyddiadau difrifol, fel stormydd 2020, yn dod yn fwy cyffredin, gyda llifogydd amlach a mwy difrifol. Bydd effeithiau newid hinsawdd hefyd yn cynyddu'r risg i asedau amddiffyn rhag llifogydd a'r costau i'w cynnal i safonau derbyniol. Mae'n debygol y bydd angen gwelliannau sylweddol ar rai o amddiffynfeydd Caerdydd.
- Ni fydd yn bosib atal pob achos o lifogydd; felly mae angen defnyddio amrywiaeth o ddulliau addasol. Fodd bynnag, mae angen cyflymu'r camau addasu er mwyn cadw i fyny ag effeithiau cynyddol newid hinsawdd.

## Eiddo sydd mewn perygl o lifogydd yng Nghaerdydd, 2024


| Risgiau Heddiw (sy'n cael eu hamddiffyn) | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Awdurdod Lleol** | **Afonydd** | | | **Arwyneb** | | | **Môr** | | |
| **Caerdydd** | **isel** | **canolig** | **uchel** | **isel** | **canolig** | **uchel** | **isel** | **canolig** | **uchel** |
| **Preswyl** | 16,467 | 931 | 274 | 6,517 | 677 | 405 | 12,581 | 85 | 0 |
| **Amhreswyl** | 2,429 | 122 | 43 | 786 | 147 | 65 | 2,048 | 147 | 1 |
| **Total** | 18,896 | 1,053 | 317 | 7,303 | 824 | 470 | 14,629 | 232 | 1 |

## Eiddo a gofrestrwyd ar gyfer Gwasanaeth Rhybudd Llifogydd Cyfoeth Naturiol Cymru, 17 Mehefin 2024

| Nifer yr eiddo yng Nghaerdydd sydd wedi cofrestru ar gyfer Gwasanaeth Rhybudd Llifogydd Cyfoeth Naturiol Cymru | |
|---|---|
| **Nifer y Cyfeiriadau Cofrestredig** | 8,112 |
| **Nifer yr Holl Gyfeiriadau o fewn Ardal Darged** | 26,758 |

*D.S. Mae 'Nifer y Cyfeiriadau Cofrestredig' yn cynrychioli faint o eiddo sydd wedi cofrestru â'r Gwasanaeth Rhybuddion Llifogydd. Mae 'Nifer yr Holl Gyfeiriadau o fewn Ardal Darged' yn cynrychioli faint o eiddo sydd mewn perygl o fewn Ardal Rhybuddio Llifogydd.*

## Asesiad Risg Llifogydd - Map Cymru: Caerdydd





*Ffynhonnell: Cyfoeth Naturiol Cymru*


# Cyfraddau Ailddefnyddio/Ailgylchu/Compostio Gwastraff Dinesig

**Pwyntiau Allweddol:**

- Yn 2023-24, Caerdydd (60.1%) oedd yr awdurdod lleol a berfformiodd waethaf yng Nghymru o ran ei chyfradd ailddefnyddio/ailgylchu/compostio ar gyfer gwastraff dinesig: Roedd hefyd yn is na'r flwyddyn flaenorol (61.6%).
- Roedd y ffigur hwn hefyd ymhell islaw targed Llywodraeth Cymru 2024-25 o 70% ac roedd wedi methu â chyrraedd hyd yn oed y targed blaenorol o 64% (erbyn 2019-20).
- Ers 2012-13, mae cyfradd Caerdydd wedi cymharu'n wael yn gyson â chyfartaledd Cymru, sef 66.6% yn 2023-24.
- Fodd bynnag, mae Caerdydd yn perfformio'n well na dinasoedd mawr eraill y DU lle mae'r cyfraddau'n amrywio o 19.2% yn Lerpwl i 39.6% ym Mryste (DS. Mae Lloegr a'r Alban yn defnyddio methodolegau a diffiniadau gwahanol i Gymru).




*Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru*




*Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru*

| Dinas Graidd y DU | Canran y gwastraff cartref a anfonir i'w ailddefnyddio, ei ailgylchu neu ei gompostio |
|---|---|
| Manceinion | 39.6 |
| Dinas Caeredin | 38.0 |
| Leeds | 35.3 |
| Sheffield | 31.9 |
| Glasgow | 27.2 |
| Nottingham | 26.7 |
| Newcastle Upon Tyne | 25.8 |
| Birmingham | 22.7 |
| Lerpwl | 19.2 |
| Bryste | Ffigurau ddim ar gael eto |

*Ffynhonnell: DEFRA (data 2023/24 – ffigur Bryste ddim ar gael eto) a SEPA (data 2023)*
*D.S. Bydd systemau casglu a rheoli gwastraff lleol yn amrywio. Mae methodolegau a diffiniadau yn wahanol rhwng Cymru, Lloegr a'r Alban.*

# Moderneiddio ac Integreiddio ein Gwasanaethau Cyhoeddus





# Canran sy'n fodlon ag ansawdd gwasanaethau cyhoeddus yng Nghaerdydd

**Pwyntiau Allweddol:**

- Yn 2024, nododd llai na hanner (49.8%) yr ymatebwyr i'r Arolwg Holi Caerdydd eu bod naill ai'n fodlon iawn neu'n weddol fodlon ag ansawdd gwasanaethau cyhoeddus yng Nghaerdydd.
- Roedd hyn bron yn ddigyfnewid o'r flwyddyn flaenorol, er ei fod ymhell yn is na'r uchafswm o 72.7% yn 2020 (pan ofynnwyd y cwestiwn gyntaf).
- Roedd dros draean (36.3%) o'r ymatebwyr naill ai'n anfodlon neu'n anfodlon iawn yn 2024, cynnydd o 15.9% yn unig ers 2020, ond ychydig yn is o 38.0% ers 2023.
- Gallai'r ffigurau ar gyfer 2020 fod yn uwch na'r hyn a ddisgwylir fel arfer oherwydd bod y pandemig o bosib yn cynyddu gwerthfawrogiad gwasanaethau cyhoeddus yn ystod y flwyddyn honno. Ers yr adeg hon, mae lefelau boddhad wedi bod yn eithaf tebyg (tua 50%).

[DS. Ni ellir bellach gymharu ffigurau o 2020 ymlaen â'r blynyddoedd blaenorol oherwydd newid yng ngeiriad y cwestiwn. Cyn 2020, y cwestiwn oedd, 'I ba raddau rydych chi'n cytuno bod ansawdd y gwasanaethau cyhoeddus yng Nghaerdydd yn gyffredinol dda?']









*Ffynhonnell: Arolwg Holi Caerdydd, Cyngor Caerdydd*

# Canran y bobl sy'n fodlon ar eu gallu i gyrraedd/cael gafael ar y cyfleusterau a'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt

**Pwyntiau Allweddol:**

- Yn 2021-22, roedd 92% o bobl Caerdydd yn fodlon ar eu gallu i gyrraedd/cael gafael ar y cyfleusterau a'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt, yr ail ffigur uchaf ar draws ALlau Cymru ac yn uwch na chyfartaledd Cymru o 86%.
- Mae ffigur Caerdydd wedi cynyddu o 87% yn 2017-18 ac yn gyson uwch na ffigur Cymru dros y cyfnod.




*Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru, Llywodraeth Cymru*